# HARDING, Sir JOHN DORNEY (1809 - 1868). twrnai'r frenhines ('Queen's Advocate')

**Enw:** John Dorney Harding
**Dyddiad geni:** 1809
**Dyddiad marw:** 1868
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** twrnai'r frenhines ('Queen's Advocate')
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith
**Awdur:** Nansi Ceridwen Jones

Ganwyd yn Rockfield, sir Fynwy. Am beth amser bu'n ddisgybl i Dr. Thomas Arnold ac yna aeth i Goleg Oriel, Rhydychen, i orffen ei addysg. Graddiodd yn B.A. yn 1830, M.A., 1833, D.C.L., 1837. Y flwyddyn honno dechreuodd weithredu fel twrnai yn y ' Doctors Commons.' Yn 1852 fe'i dewiswyd yn dwrnai'r frenhines a pharhaodd felly hyd 1862. Cafodd ei urddo yn farchog 24 Mawrth 1852. Yn 1839 cyhoeddodd *Essay, on the Influence of Welsh Tradition upon European Literature*, gwaith a enillodd y wobr a gynigiwyd gan Gymdeithas Cymreigyddion y Fenni yn 1838. Bu farw 24 Tachwedd 1868 yn 59 mlwydd oed.

## Awdur

**Nansi Ceridwen Jones**

## Ffynonellau


H. Blackwell, NLW MSS 9259A: A Dictionary of Welsh Biography (93)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Foster, *Alumni Oxonienses*, 1715-1886

E. G. Salisbury, *Border Counties' Worthies* (1878-80)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733132


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu